


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Grant Creu Coetir

# Manylebau Technegol Ar Gyfer Gwaith Cyfalaf

# GRANT CREU COETIR

## MANYLEBAU TECHNEGOL AR GYFER GWAITH CYFALAF

**Mae'n rhaid cwblhau'r Gwaith Cyfalaf a nodir yn y contract Grant Creu Coetir yn unol â'r nifer, y lleoliad a'r amseriad a nodir yn y Contract. Mae'r Manylebau Technegol canlynol yn cynnwys manylion sut y dylid cwblhau pob darn o Waith Cyfalaf.**

Os gwelir bod unrhyw waith rydych yn ei hawlio wedi'i wneud at safon wahanol, heb ganiatâd ymlaen llaw Llywodraeth Cymru, gallai'r prosiect gael ei ystyried yn anghymwys. Bydd hynny'n golygu y caiff hawliadau eu gwrthod (neu y gofynnir ichi dalu unrhyw arian a dalwyd yn ôl) ac y cewch eich cosbi yn unol â rheolau'r cynllun, oni bai ein bod yn asesu bod y gwaith wedi'i wneud at safon gyfatebol.

Dylech nodi y bydd efallai angen caniatâd ychwanegol i'r hyn a amlinellir yn y Manylebau Technegol hyn ar beth o'r gwaith y mae gofyn i chi ei gwblhau fel rhan o'ch Contract Grant Creu Coetir, a hynny cyn cychwyn ar y gwaith hwnnw. Gallai'r caniatâd hwnnw fod yn ganiatâd cynllunio, tystysgrif, cydsyniad neu drwydded. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion o'r fath.

Byddwch yn gyfrifol am sicrhau y glynir at yr holl ofynion diogelwch wrth ymgymryd ag unrhyw waith. Bydd angen yswiriant atebolrwydd cyhoeddus arnoch hefyd.

## 1. CANLLAW PLANNU CYFFREDINOL

Mae’r canllawiau cyffredinol canlynol yn berthnasol i bob Categori o Goetir yn y Grant Creu Coetir. Ond sylwer ar y gofynion arbennig ynghylch
**P001 – Amaeth-goedwigaeth – Coed Gwasgaredig.**

**Amseriad**

Yn draddodiadol, mae’r tymor plannu’n para o 1 Hydref tan 30 Mawrth. Ar diroedd uwch, gall y tymor plannu coed newydd bara tan ddiwedd mis Ebrill. Bydd y contract Grant Creu Coetir wedi neilltuo blwyddyn neu gyfnod i gwblhau’r gwaith ac i hawlio erbyn diwedd Mawrth bob blwyddyn.

**Paratoi’r Tir**

Mater o ddewis yw penderfynu paratoi’r safle ac nid yw’n cael ei ariannu.

**Rhywogaethau**

Bydd pa rywogaethau coed a pha gymysgedd o goed i’w plannu yn dibynnu ar ffactorau amgylcheddol y safle. Dylid ystyried ffactorau fel y mathau o bridd a nodweddion tyfu pob coeden wrth ddewis rhywogaethau. Wrth blannu cymysgedd o goed, dylid plannu gwahanol rywogaethau ym mhob rhan o’r llain gyfan mewn grwpiau o rywogaethau unigol o 5-25 o goed. Dylid ystyried maint y grŵp.

Oherwydd *clefyd y coed ynn (Chalara fraxinea)* a *Phytophthora Ramorum,* peidiwch â chynnwys coed ynn na llarwydd yn eich cymysgedd. Ar gyfer coed sy’n tyfu’n arafach – fel coed deri – plannwch grŵp o ddigon o faint i sicrhau nad ydyn nhw’n cael eu cysgodi gan rywogaeth sy’n tyfu’n gynt.

**Prynu Coed**

Ar gyfer prynu llawer o goed, efallai mai meithrinfa goed arbenigol fyddai’r dewis gorau. Ar gyfer y rhan fwyaf o safleoedd, trawsblaniadau 40 to 60 centimedr o uchder yw’r dewis gorau gan fod gwaith cynnal a chadw’n haws pan mae modd gweld y coed ynghanol y llystyfiant.

Daw coed o feithrinfeydd mewn ffurfiau gwahanol;

**Gwreiddiau Moel** – codir y coed o'r pridd â gwreiddiau moel a'u pacio'n fwndeli. Gwreiddgyff moel sy'n cael eu defnyddio amlaf ar gyfer plannu coed newydd ond mae angen eu storio a'u trin yn ofalus.
**Mewn Celloedd (Plygiau)** – tyfir y rhain mewn padelli plastig sy'n creu plygiau cul o wreiddiau mân a phridd. Mae tyfu coed mewn cell yn ymestyn y tymor tyfu bob pen gan fod y gwreiddiau'n gallu tyfu yn y plwg pridd ac mae'r plwg yn amddiffyn y planhigyn rhag difrod wrth ei blannu.
**Mewn Pot** - mae'r coed yn cael eu tyfu mewn potiau unigol a chedwir y dull hwn ar gyfer y coed mwyaf a rhai llwyni a choed addurnol fel celyn fel arfer. Mae'n ddull drutach ac yn cymryd mwy o le, ond mae'n rhoi'r un hyblygrwydd â phlygiau.

**Maint y Goeden**
Gan amlaf, mae coed rhwng 10 a 60cm o daldra ar gael. Mae meithrinfeydd yn eu rhannu'n fandiau er enghraifft: 20-40cm neu 40-60cm. Ar gyfer y rhan fwyaf o waith plannu newydd, bydd coeden gref 40-60cm o uchder a chanddi system wreiddiau dda yn addas.

**Trin y Coed**
Ceisiwch fod yno pan fydd y coed yn cyrraedd i sicrhau eu bod mewn cyflwr da. ***Cadwch y gwreiddiau dan orchudd trwy'r amser cyn eu plannu rhag i chi eu niweidio neu rhag iddynt sychu.*** Er na fydd oerfel yn debygol o wneud drwg iddynt, gall haul twym neu unrhyw beth all eu sychu, fel gwynt o'r dwyrain, eu niweidio'n gyflym iawn neu hyd yn oed eu lladd. Os na allwch eu plannu ar unwaith, palwch ffos cyn iddynt gyrraedd a storiwch y planhigion ynddi gyda'r gwreiddiau wedi'u gorchuddio er mwyn eu cadw'n llaith ac oer. Amddiffynnwch y planhigion rhag anifeiliaid, gan gynnwys cwningod ac ysgyfarnogod.

**Cysgod Coed**
Pan gaiff darnau mwy o dir eu hail stocio, yn enwedig â chymysgedd o goed conwydd, mae'r coed yn cael eu plannu gan amlaf heb amddiffyniad ychwanegol. Ceir cwningod, ysgyfarnogod, ceirw neu lygod y gwair ar y rhan

fwyaf o safleoedd ac fe'ch cynghorir i roi llewys coed ar goed llydanddail i atal difrod. Nid oes angen amddiffyniad ychwanegol ar goed conwydd. Mae llawer o fathau o lewys coed ar gael, o rai sbeiral ysgafn a gynhelir â gwiail i lewys plastig solid y mae angen pyst a chlymau i'w cynnal. Gall cysgod coed helpu tyfiant coed yn ystod y blynyddoedd cyntaf, ei gwneud yn haws eu cynnal a'u cadw a sicrhau nad yw mamaliaid neu redyn yn gwneud niwed i'r coed.

**Mannau Agored**

Gall hyd at 15% o'r llain rydych yn ei blannu fod yn dir agored gwasgaredig a gall y tir agored na ellir ei blannu fod hyd at 0.5ha o faint. Bydd angen ichi newid maint y bwlch rhwng y coed yn ôl faint o'r tir na ellir ei blannu er mwyn sicrhau'ch bod yn plannu nifer y coed y mae'r contract yn gofyn ichi eu plannu.

**Plannu wrth Afonydd, Pyllau, Nentydd ac ati**

Ni ddylai mwy na 10% o'r coed ar lan afon fod yn goed gwern, (e.e. ger pyllau, afonydd, nentydd ac ati).

**Diogelu Coed rhag Da Byw**

Rhaid amddiffyn safleoedd plannu newydd o dan y Grant Creu Coetir rhag da byw a cheirw trwy ddefnyddio ffens derfyn addas am o leiaf 12 mlynedd ar ôl cyflwyno'r hawliad am y taliad cynnal a chadw cyntaf.

**Gofalu am Goed a Llwyni**

Bydd angen i chi dorri'r llystyfiant o gwmpas y coed nes bod y coed wedi cydio. Mae'n bwysig bod y gwaith cynnal a chadw hwn yn para o leiaf 3 blynedd nes bod y coed yn tyfu'n uwch na'r llystyfiant.

Mae'n hollbwysig eich bod yn rheoli'r chwyn o gwmpas y coed am eu bod yn cystadlu am ddŵr a maethynnau gan wneud niwed mawr i goed sydd heb ddatblygu gwreiddiau helaeth eto.

Gall llystyfiant tal fel rhedyn a mieri ddifrodi coed ac fel arfer, bydd angen eu torri â llaw neu beiriant, er ei bod yn bosibl chwistrellu'r rhedyn. Mae torri neu strimio porfa'n ei wneud i dyfu'n ôl yn gryfach. Sbot-chwynnu yw'r ffordd

gemegol fwyaf effeithiol o'u rheoli. Dim ond cemegion sydd wedi'u trwyddedu y gellir eu defnyddio a dim ond pobl â thrwydded sy'n cael eu gwasgaru. Gallwch ddefnyddio matiau mwlts o blastig, cardfwrdd neu ddefnydd yn lle cemegau.

Rydyn ni'n eich cynghori i dorri neu bori'r borfa yn union cyn plannu'r coed. Bydd hynny'n hwyluso'r gwaith plannu. Os oes trwch o ddeunydd marw, mae'n anoddach gwasgu'r pridd o gwmpas y coesyn a gallai coed ifanc ddioddef niwed i'w gwreiddiau o'r herwydd. Efallai felly y bydd angen crafu'r wyneb i ddatgelu'r pridd er y bydd hynny'n cynyddu'r costau llafur. Y gorau yn y byd yw ansawdd y gwaith plannu, diogelu a gofalu am y coed, y mwyaf tebygol y bydd y coed o gydio'n gyflym.

**Coed yn lle coed sy'n marw**

Dylid asesu'r safle plannu bob diwedd haf. Rhaid plannu coed yn lle unrhyw goed marw yn yr hydref neu'r gwanwyn dilynol. Chwiliwch am batrwm i'r colledion o ran y math o dir neu rywogaeth. Os ydy'r colledion yn fwy na 10-15%, ac os nad oes achos amlwg, holwch y sawl sy'n gwerthu'r planhigion i chi neu gofynnwch am gyngor proffesiynol.

**Llewys a chysgod**

Mae angen edrych ar lewys yn rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn sâff. Mae llystyfiant yn gallu tyfu i fyny'r tiwbiau a'r llewys a rhaid gofalu bod y tiwbiau'n cyffwrdd â'r llawr rhag i gwningod a llygod allu cael at goesau'r coed. Er eu bod fel arfer yn fioddiraddiadwy, gallent gael effaith ddrwg ar dyfiant a sefydlogrwydd y coed pe baech yn eu gadael. Felly dylech eu tynnu cyn gynted ag nad oes eu hangen.

## 2. MANYLEBAU A GOFYNION PLANNU CATEGORïAU O GOETIR

### P001 - Amaeth-Goedwigaeth – Coed gwasgaredig

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon waith ofynnol er mwyn derbyn taliadau ar gyfer ‘Amaeth-goedwigaeth – Coed Gwasgaredig. Os oes ffyrdd neu ddulliau traddodiadol lleol sy'n wahanol i'r safon hon, gellir eu defnyddio. Rhaid i unrhyw wahaniaeth sylweddol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

**Manylebau**

- 80 o goed yr hectar
- Ffensio coed unigol
- Ddim yn gymwys am daliad Premiwm Creu Coetir

**Lefelau Pori**

Y lefel stocio isaf ar gyfer llain o goed gwasgaredig yw 0.4 o Unedau Da Byw yr hectar ar unrhyw adeg rhwng 1 Mai a 30 Medi.

Rhaid cadw dyddiadur stocio er mwyn gwybod faint o stoc sy'n pori'r tir ar unrhyw adeg.

**Plannu Coed**

Rhaid i'r goeden a blennir fod yn goeden chwip fawr sy'n mesur mwy na 1.5 medr a rhaid gosod cysgod o’i hamgylch i’w hamddiffyn rhag mamaliaid.

Mae'r rhywogaethau y gellid eu plannu wedi eu rhestru yn Atodiad A sydd wedi ei atodi.

## Giardiau Coed

### Lleoli Giardiau a'u Huchder

Rhaid i unrhyw giardiau sydd wedi'u gwneud o reiliau pren fod o leiaf 1.2 metr o uchder a rhaid eu gosod o leiaf fetr o'r goeden i'w hamddiffyn rhag defaid (neu 1.5 metr i'w hamddiffyn rhag gwartheg a cheffylau).

### Adeiladu

Defnyddiwch gyfuniad o byst fertigol a rheiliau llorweddol i adeiladu strwythur cadarn. Gosodwch netin o'i amgylch i rwystro da byw rhag mynd at y goeden. Bydd y rheiliau llorweddol yn rhwystro’r pyst rhag llacio. Mae'n bosibl y bydd amrywiaeth o stoc yn defnyddio’r tir parc felly rhaid i'r giard fod yn ddigon cryf i wrthsefyll y sefyllfa waethaf bosibl a allai godi. Peidiwch â cheisio cynyddu'r pellter rhwng y rheilen uchaf a'r goeden drwy ogwyddo'r pyst tuag allan. Bydd hynny’n ei gwneud yn anodd gosod y netin yn gadarn yn ei le.

Nid oes angen gosod weiren bigog ar ben y darn sydd wedi’i amgáu gan y giard gan na fydd yn debygol o rwystro anifeiliaid rhag pwyso dros y rheilen uchaf, a bydd yn ei gwneud yn anoddach ichi fynd at y goeden i’w thrin. Hefyd, gallai’r weiren bigog eich anafu chi a'ch da byw..


### Cynllun

Giardiau sgwâr neu hirsgwar yw'r cynllun a ffefrir. Dylai diamedr pob un o'r pedwar postyn cornel fod o leiaf 10cm x 10cm. Dylid gosod o leiaf bedair rheilen bren â diamedr o 10cm x 5cm o leiaf ar ochr allanol y pyst. Wedyn dylid gosod netin galfanedig o amgylch y strwythur a'i ddal yn ei le â staplau galfanedig. Hefyd, gellir gosod set ychwanegol o reiliau hanner ffordd i fyny'r pyst i'w hatgyfnerthu. Rhaid i unrhyw bren, netin a staplau fod wedi’u gwneud o ddeunyddiau newydd. Rhaid defnyddio pren meddal wedi'i drin dan wasgedd neu bren caled.

**Giardiau Coed Parcdir**

1. Math y Postyn a'r Rheilen


a) Addas i'w ddefnyddio gyda defaid








b) Addas i'w ddefnyddio gyda cheffylau a gwartheg



**Atodiad A**

**Rhywogaethau Cymwys ar gyfer Amaeth-Goedwigaeth**

Gwernen Gyffredin
Afalau Surion
Bedwen Arian
Bedwen Gyffredin
Ffawydden (I'r de o'r A40)
Ceiriosen yr Adar
Ceiriosen Ddu
Llwyfen Lydanddail
Llwyfen Gyffredin (Lloegr)
Draenen Wen
Collen
Celynnen
Merywen
Pisgwydden Deilen Fach
Pisgwydden Deilen Fawr
Masarnen Fach
Derwen Mes Coesynnog

Derwen Mes Digoes
Pinwydden yr Alban
Aethnen
Aethnen Ddu
Criafolen
Cerddinen Wen
Cerddinen Morgannwg
Cerddinen Wyllt
Helygen Bêr
Helygen Frau
Helygen Wen
Helegyn Dribrigerog
Ywen
Coeden Ellyg
Coeden Ellyg Plymouth
Coeden Goeg-geirios
Coeden Cneuen Ffrengig

Masarnen
Castanwydden Bêr
Derwen Fythwyrdd
Derwen Twrci
Castanwydden

Breuwydden
Ysgawen
Cwyrosyn
Cerddinen y Graig
Piswydden
Helygen Ddeilgron
Helygen Lwyd
Helygen Gochlas
Helygen Wiail
Helygen Glustiog
Gwifwrnwydden y gors
Gwifwrnwydden
Yswydden
Draenen Ddu

**P002 – Coetir Brodorol – Bioamrywiaeth (1600)**

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer plannu rhywogaeth lydanddail frodorol o dan waith cyfalaf Categori Coetir 'Coetir Brodorol – Bioamrywiaeth'.

**Rhaid ichi ddarllen hefyd y gofynion plannu manwl sy'n rhan o'r Contract hwn, sydd i'w gweld naill ai ar ddechrau'r adran 'Manylebau Technegol ar gyfer Gwaith Cyfalaf' neu yn yr Atodiad.**

**Gofynion Plannu**

Mae'r opsiwn gwaith cyfalaf hwn yn gofyn am blannu rhywogaethau coed brodorol.  Rhaid plannu'r coed mewn clystyrau gyda bylchau amrywiol eu maint rhwng y coed e.e. plannwch grwpiau rhwng 5 ac 20 o goed o'r un rhywogaeth.

**Manyleb**

- Rhywogaethau brodorol – dylai'r cymysgedd fod yn frodorol i'r safle a chydymffurfio â mathau'r Cynllun Gweithredu ar Gynefinoedd (er enghraifft deri'r ucheldir, coetir collddail cymysg yr iseldir), ond gallai'r amodau lleol ofyn am newid hyn i ryw raddau.
- Stoc plannu lleol addas
- Caiff hyd at 20% fod yn llwyni coediog
- Gwasgaru rhywogaethau'n glystyrau, gyda bylchau amrywiol rhyngddynt
- Dwysedd stocio 1,600/ha
- Dim da byw

Rhaid plannu o leiaf 1600 o goed yr hectar, gyda'r cyfan wedi cydio am 12 mlynedd ar ôl blwyddyn plannu'r coed.

**Bylchau rhwng Coed**

Mae plannu o dan yr opsiwn hwn yn gofyn am 1,600 coed/ha sy'n gyfystyr â bwlch o 2.5m rhwng pob coeden er y gellir eu plannu'n glystyrau.

Efallai y bydd angen ichi blannu mwy o goed yr hectar mewn rhannau o'r safle oherwydd nodweddion fel cnycau creigiog neu dir agored na ellir eu plannu.

**P003 - Coetir Brodorol – Carbon**

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer plannu rhywogaeth lydanddail frodorol o dan opsiwn plannu gwaith cyfalaf 'Coetir Brodorol – Carbon'.

**Rhaid ichi ddarllen hefyd y gofynion plannu manwl sy'n rhan o'r Contract hwn, sydd i'w gweld naill ai ar ddechrau'r adran 'Manylebau Technegol ar gyfer Gwaith Cyfalaf' neu yn yr Atodiad.**

**Gofynion Plannu**

Mae'r opsiwn gwaith cyfalaf hwn yn gofyn am blannu rhywogaethau coed brodorol.

**Manyleb**

- Cymysgedd o rywogaethau brodorol
- Caiff hyd at 20% fod yn llwyni coediog
- Dwysedd stocio 2,500/ha
- Dim da byw

Rhaid plannu o leiaf 2500 o goed yr hectar, gyda'r cyfan wedi cydio am 12 mlynedd ar ôl blwyddyn plannu'r coed.

**Bylchau rhwng Coed**

Mae plannu o dan yr opsiwn hwn yn gofyn am 2,500 o goed/ha sy'n gyfystyr â bwlch o 2.0m rhwng pob coeden.

Efallai y bydd angen ichi blannu mwy o goed yr hectar mewn rhannau o'r safle oherwydd nodweddion fel cnycau creigiog neu dir agored na ellir eu plannu.

## P004 - Plannu Coetir Cymysg Gwell

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer plannu rhywogaeth lydanddail frodorol o dan opsiwn plannu gwaith cyfalaf 'Coetir Brodorol Gwell'.

**Rhaid ichi ddarllen hefyd y gofynion plannu manwl sy'n rhan o'r Contract hwn, sydd i'w gweld naill ai ar ddechrau'r adran 'Manylebau Technegol ar gyfer Gwaith Cyfalaf' neu yn yr Atodiad.**

**Gofynion Plannu**

Mae'r opsiwn gwaith cyfalaf hwn yn gofyn am blannu rhywogaethau coed brodorol.

**Manyleb**

- O leiaf 5 prif rywogaeth (o leiaf 10% yr un)
- O leiaf 25% yn goed llydanddail gan gynnwys yr elfen llwyni coediog
- Caiff hyd at 10% fod yn llwyni coediog
- Dim mwy na 50% yn un rhywogaeth
- Dwysedd stocio 2,500/ha
- Dim da byw

Rhaid plannu o leiaf 2500 o gyffion yr hectar gyda'r cyfan wedi cydio am 12 mlynedd ar ôl blwyddyn plannu'r coed.

**Bylchau rhwng Coed**

Mae plannu o dan yr opsiwn hwn yn gofyn am 2,500 o goed/ha sy'n gyfystyr â bwlch o 2.0m rhwng pob coeden.

Efallai y bydd angen ichi blannu mwy o goed yr hectar mewn rhannau o'r safle oherwydd nodweddion fel cnycau creigiog neu dir agored na ellir eu plannu.

## 3. GWAITH CYFALAF FFENSIO CYSYLLTIEDIG

### P595 – Ffens Postyn a Weiren a Netin ar gyfer Stoc

Mae’r nodyn technegol hwn yn disgrifio’r safon y bydd gofyn i’r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer ‘Ffens Postyn a Weiren’.

Rhaid cadw at y canlynol:

- Gofalwch eich bod wedi cael ac yn cadw at unrhyw drwydded neu ganiatâd sydd ei angen arnoch.
- Defnyddiwch naill ai bren caled neu bren meddal wedi’i drin dan bwysau.
- Rhaid i’r pren, y weiren, y netin a’r staplau wedi’u galfaneiddio i gyd fod yn newydd.
- Bydd gan y pyst tynnu groestoriad o 12.5cm fan leiaf a byddant o leiaf 2m o hyd. Rhaid gosod y pyst tynnu’n ddigon dwfn yn y pridd i’w sefydlogi. Rhaid rhoi pyst tynnu bob pen y ffens a phob 100m neu lai yng nghanol y ffens. Rhaid gosod pyst tynnu hefyd bob tro y mae’r tir yn mynd i fyny neu i lawr neu’n newid cyfeiriad.
- Rhaid rhoi pwyslathau (strytiau) ar y pyst sydd ym mhen llinell y ffens a phan fydd y tir yn mynd i fyny neu i lawr neu’n newid cyfeiriad. Bydd gan y pwyslathau ddiamedr o 6.5cm neu fwy a rhaid eu cynnal rhag ymwthio allan. Ni ddylai pyst canol fod â diamedr o lai na 6.5cm (pyst crwn a phren wedi’i llifio) a dylent fod o leiaf 1.7m o hyd. Mae pyst hanner crwn yn gwneud y tro cyn belled â’u bod yn mesur o leiaf 6.5cm o bwynt canol yr ochr sydd wedi’i llifio i bwynt canol yr ochr gron. Rhaid gosod y pyst canol bob 3m neu lai.
- Rhaid cysylltu’r netin wrth y pyst â staplau wedi’u galfaneiddio.
- Rhaid defnyddio staplau wedi’u galfaneiddio i gysylltu pob weiren wrth y pyst. Ni ddylai’r weiren dop fod yn llai na 1.05m o’r llawr. Lle bydd gwartheg neu ddefaid yn rhoi llawer o bwysau ar y ffens, dylech roi ail linyn o weiren uwch ben y netin yn ogystal â weiren ychwanegol o dan

y netin. Ar ffens sy’n ffinio â llwybr neu ffordd gyhoeddus, rhaid i’r weiren uchaf fod yn weiren blaen neu rhaid gosod llinyn arall o weiren blaen wrth du allan y pyst sydd agosaf i’r llwybr.

- Gofalwch fod yn ffens newydd yn cydymffurfio â Safonau Prydeinig 1722 a 4102, fel y’u diwygiwyd.
- Peidiwch â defnyddio coed na llwyni fel pyst terfyn neu byst ffensio na’u defnyddio chwaith i gynnal weiren, staplau na netin.

**Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:**

- Yr arfer gorau yw gosod y pyst tynnu o leiaf 1m o dan ddaear i’w sefydlogi.
- Rhaid cynnal y pwyslathau croesgornel ar naill ai blât sylfaen neu gan bostyn canol mewn lle addas i’w rhwystro rhag ymwthio allan.
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu’n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffyniad rhag llifogydd. Fel arall, gofalwch fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy’n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. Dylech gadw’r drwydded/ caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a’u dangos pan ofynnir ichi. Gweler yr Amodau a’r Telerau i gael rhagor o fanylion.
- Lle bo’r Grantiau Bach – Creu Coetir yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu’ch bod yn cael caniatâd yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.

Diagram o Bostyn a Weiren â Netin Stoc

